OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 837 (Cy.72)

GALLUEDD MEDDYLIOL, CYMRU

Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Colli Galluedd yn ystod Prosiect Ymchwil) (Cymru) 2007

Wedi'u gwneud - -	*13 Mawrth 2007*
Yn dod i rym	
At y diben a grybwyllir yn rheoliad 1(1)(a)	*1 Gorffennaf 2007*
At bob diben arall	*1 Hydref 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 30(6), 34(1), (2) a (3), 64(1) a 65(1) o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005(**1**).

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Colli Galluedd yn ystod Prosiect Ymchwil) (Cymru) 2007 a deuant i rym —

(a) ar 1 Gorffennaf 2007 at ddibenion galluogi ceisiadau ar gyfer cymeradwyaeth at ddibenion Atodlen 1 i gael eu gwneud i gorff priodol ac i gael eu penderfynu ganddo,

(b) ar 1 Hydref 2007 at bob diben arall.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Galluedd Meddyliol 2005;

mae i "corff priodol" yr ystyr a roddir i "appropriate body" gan adran 30(4) o'r Ddeddf a chan Reoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Corff Priodol) (Cymru) 2007(**2**).

mae i "P" yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 2;

mae i "R" yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 3.

(**1**) 2005 p.9. Enwir adran 64(1) oherwydd yr ystyr a roddir ynddi i "prescribed".
(**2**) O.S. 2007/833 (Cy.71).

Cymhwyso

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys pan fo'r canlynol yn wir—

(a) bod person ("P") wedi cydsynio cyn 31 Mawrth 2008 i gymryd rhan mewn prosiect ymchwil ("y prosiect") a ddechreuodd cyn 1 Hydref 2007 ond

(b) cyn i'r prosiect ddod i ben, bod P yn colli galluedd i gydsynio i gymryd rhan ynddo, ac

(c) y byddai ymchwil at ddibenion y prosiect o ran P, heblaw am y Rheoliadau hyn, yn anghyfreithlon yn rhinwedd adran 30 o'r Ddeddf.

Ymchwil y caniateir ei gyflawni er bod cyfranogwr yn colli galluedd

3. Er i P golli galluedd, caniateir i ymchwil at ddibenion y prosiect gael ei gyflawni gan ddefnyddio gwybodaeth neu ddeunydd sy'n ymwneud â P —

(a) os yw'r prosiect yn bodloni'r gofynion a osodir yn Atodlen 1;

(b) os cafwyd yr holl wybodaeth neu'r deunydd sy'n ymwneud â P a ddefnyddir yn yr ymchwil cyn i P golli galluedd;

(c) os yw'r wybodaeth honno neu'r deunydd hwnnw naill ai—

(i) yn ddata o fewn ystyr adran 1 o Ddeddf Diogelu Data 1998, neu

(ii) yn ddeunydd sy'n gelloedd dynol neu'n DNA dynol a/neu yn eu cynnwys; ac

(ch) os yw'r person sy'n cynnal y prosiect ("R") yn cymryd y camau hynny sy'n ymwneud â P a osodir yn Atodlen 2.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

D. Elis-Thomas
13 Mawrth 2007 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.